# Arolwg Manwerthu

Cyngor Sir Penfro

Arolwg Hydref 2025

# Cynnwys


1. Cyflwyniad a chrynodeb ... 3

**Casglu gwybodaeth ... 3**

2.0 Crynodeb o ddata'r arolwg ... 5

3.0 Polisi Cynllunio Manwerthu ... 7

4.0 Data ar Ganol Trefi 2023 ... 9

**4.1 Nifer yr unedau Dosbarth A ... 9**

**4.2 Arwynebedd llawr daear unedau Dosbarth A (m2 gros) 2023 ... 10**

**4.3 Math o unedau Dosbarth A 2014 - 2023 ... 11**

**4.4 Arwynebedd llawr (m2 gros) Dosbarth A 2025 ... 15**

**4.5 Tabl yn dangos y newidiadau yng nghyfraddau unedau gwag dosbarth A rhwng 2014 a 2022 ... 16**

**4.7 Tabl yn dangos canran y defnyddiau A1 dan feddiannaeth yn y prif ffryntiad manwerthu. ... 18**

**4.8 Newidiadau mewn siopau betio rhwng 2009 a 2023 (unedau dan feddiannaeth yn unig) ... 18**

**4.9 Newidiadau mewn siopau elusen rhwng 2009 a 2025 (unedau dan feddiannaeth yn unig) ... 19**

**4.10 Newidiadau yn nifer y safleoedd dan feddiannaeth gan farbwyr/trinwyr gwallt a salonau harddwch rhwng 2020 a 2025 (unedau dan feddiannaeth yn unig) ... 20**

5.0 Mapiau Canol Trefi (gweler yr Atodiadau) ... 20

# 1. Cyflwyniad a chrynodeb

1.1 Mae'r ddogfen hon yn cynnwys data a mapiau arolwg o Arolwg Canol Trefi Sir Benfro a gynhaliwyd ym mis Hydref 2025. Gwnaed arolwg o ganol y trefi canlynol:

- Abergwaun
- Hwlffordd
- Aberdaugleddau
- Marina Aberdaugleddau
- Arberth
- Penfro
- Doc Penfro

*Sylwch mai Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (APCAP) a gynhaliodd yr arolwg o ganol trefi yn nhiriogaeth ei awdurdod cynllunio. Ychwanegwyd y rhain at yr adroddiad hwn, gan eu hamlygu mewn llwyd. Gwnaed arolwg APCAP yn Haf 2025).*

1.2 Canolbwyntiodd yr arolwg ar yr eiddo o fewn terfynau dynodedig canol trefi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Benfro a ddangosir ar y mapiau yn Adran 3 o'r adroddiad hwn.

1.3 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei ddiwygio ar hyn o bryd, ac yn dilyn oedi a achoswyd gan ganllawiau newydd yn ymwneud â ffosffadau ac yna Pandemig COVID-19, cynhaliwyd ail ymgynghoriad ar y Cynllun Adneuo yn hydref 2024. Cyhoeddwyd newidiadau â ffocws arfaethedig pellach i'r Cynllun Adneuo ar gyfer ymgynghoriad yn haf 2025. Mae rhan archwilio'r broses bellach wedi cychwyn a rhagwelir y bydd y gwrandawiadau yn cael eu cynnal yn hydref 2026.

## Casglu gwybodaeth

1.4 Casglwyd yr wybodaeth ganlynol ar gyfer pob eiddo masnachol:

- Boed y llawr daear dan feddiannaeth a'i peidio
- Dosbarth defnydd y llawr daear gan ddefnyddio Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 (fel y newidiwyd).

1.5 Mae dadansoddiad pen desg o fapiau wedi rhoi arwynebedd llawr gros ar gyfer yr holl unedau manwerthu.

1.6 Ar gyfer eiddo gwag, gwnaed chwiliadau dilynol o ffeiliau cynllunio hanesyddol a defnyddiwyd arolygon blaenorol i benderfynu'r dosbarth defnydd hysbys diwethaf, lle bo hynny'n bosibl.

1.7 Mae'r tablau yn yr adran dadansoddi'n cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

**i. Defnyddiau Dosbarth A:**

Sawl eiddo a nodwyd fel A1, A2 neu A3 yn y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd.

- Defnyddiau A1 yw siopau o bob math, gan gynnwys archfarchnadoedd a warysau manwerthu. Mae defnyddiau A1 hefyd yn cynnwys trinwyr gwallt a siopau brechdanau (heblaw'r rhai sy'n gwerthu bwyd poeth) a rhai ystafelloedd arddangos.
- Defnyddiau A2 yw'r rhai'n cynnig gwasanaethau ariannol a phroffesiynol i'r cyhoedd sy'n ymweld, gan gynnwys banciau, cymdeithasau adeiladu, gwerthwyr tai a swyddfeydd betio. Gwnaethpwyd diwygiad i'r Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd yng Nghymru[1] ym mis Hydref 2022 sy'n hepgor swyddfeydd betio o Ddosbarth Defnydd C2 ac yn gosod Siopau Betio yn y categori Sui Generis.
- Defnyddiau A3 yw mannau gwerthu bwyd a diod, gan gynnwys tai bwyta, bariau, tafarnau a siopau cludfwyd.[2]

**ii. Math o eiddo Dosbarth A:**

Mae dadgyfuno'r unedau hynny yn nosbarthiadau defnydd A1, A2 ac A3 yn helpu i roi darlun mwy eglur o'r math o wasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan uned. Yn gyffredinol mae unedau A1 o natur gymharu neu gyfleuster; ond mae rhai defnyddiau A1 yn cynnig gwasanaethau (fel triniwr gwallt neu swyddfa bost). Yn gyffredinol mae dosbarthiadau defnydd A2 ac A3 o natur gwasanaeth. Rhannwyd y mathau o uned fel a ganlyn:

- Uned gymharu: Yr unedau hynny sy'n gwerthu cynhyrchion o natur barhaol i'r cyhoedd. Cynhyrchion yw'r rhain fel dillad, electroneg, cerddoriaeth neu lyfrau.
- Uned gyfleuster: Yr unedau hynny sy'n gwerthu cynhyrchion o natur amharhaol i'r cyhoedd. Cynhyrchion yw'r rhain fel bwyd neu bethau ymolchi.
- Uned wasanaeth: Yr unedau hynny sy'n cynnig gwasanaeth i'r cyhoedd. Gwasanaethau yw'r rhain fel trinwyr gwallt, siopau betio neu werthwyr tai.

[1] Daeth Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) (Diwygio) (Cymru) 2022 i rym ar 20 Hydref 2022. Gwnaed newidiadau hefyd i Anheddau Dosbarth defnydd C3, a ddiffinnir fel yr unig neu brif breswylfa. Ychwanegodd y diwygiad Anheddau Dosbarth Defnydd C5, sydd heb fod yn unig breswylfa neu'n brif breswylfa, a Dosbarth Defnydd C6:Gosodiadau tymor byr.
[2] Sylwch fod y dosbarth defnydd A3 wedi cael ei newid eto yn Lloegr; ond, nid yw'r newid hwn yn berthnasol yng Nghymru.

# 2.0 Crynodeb o ddata'r arolwg

2.1 Mae'r canol trefi yn arddangos amrywiaeth o newidiadau ers y cynhaliwyd yr arolwg diwethaf yn 2023. Mae cyfraddau'r unedau gwag yn Hwlffordd a Doc Penfro wedi parhau yn gyson drwyddo draw. Mae cyfradd yr unedau gwag yn Aberdaugleddau wedi gostwng yn sylweddol, o 21% i 12% yn dilyn gostyngiad tebyg o 30% yn 2022, a hynny yn dilyn y gyfradd uchaf mewn 12 mlynedd. Mae Penfro hefyd yn dangos arwyddion bychain o welliant gyda chyfradd yr unedau gwag yn gostwng o 20% i 16%. Yn Abergwaun, gwelwyd gostyngiad o 3% ers 2023 i 14%. Mae cyfradd yr unedau gwag ym Marina Aberdaugleddau (a elwir bellach yn Glannau Aberdaugleddau) yn dangos cynnydd dramatig o 4 i 27%, er ei bod yn ganolfan fach, gyda newid i nifer fach o unedau yn cael effaith sylweddol ar y ffigyrau. Mae cyfradd yr unedau gwag yn nhrefi Abergwaun, Aberdaugleddau, Arberth a Phenfro yn is na chyfartaledd cenedlaethol y DU.

2.2 Mae canol tref **Abergwaun** yn ymddangos i fod yn gwella ar y cyfan gyda gostyngiad o 3% yng nghyfraddau'r unedau gwag. Er bod llai o siopau cymharu yn y dref nag oedd yn bodoli cyn COVID-19, mae tair siop newydd (sy'n codi'r cyfanswm i 31) wedi agor ers 2023. Ychydig o newid sydd wedi bod yn nifer y siopau cyfleustra a gwasanaeth. Mae nifer y siopau betio (0), siopau elusen (3) a siopau trin gwallt/barbwyr/salonau harddwch (6) wedi parhau yn gyson, gydag ychydig iawn o newid wedi bod ers 2020.

2.3 Mae cyfradd yr unedau gwag yng nghanol tref **Hwlffordd** yn parhau'n uchel, gydag ychydig dros chwarter yr unedau Dosbarth A yn wag yn 2025. Mae cyfradd yr unedau gwag wedi parhau yn uwch nag 20% ers 2020. Mae dwy siop gymharu newydd wedi'u hagor ers 2023, ond collwyd un siop gyfleustra. Mae nifer y siopau sy'n darparu gwasanaethau wedi cynyddu'n sylweddol - gyda 25 uned ychwanegol. Mae un siop betio ychwanegol yn y dref, a ganiatawyd yn dilyn apêl yn 2024, gan wneud cyfanswm o dair siop. Mae dwy siop elusen wedi cau ynghyd â chwe siop trin gwallt/barbwr/siop harddwch.

2.4 Mae canol tref **Aberdaugleddau** yn parhau i ddangos tuedd addawol gyffredinol o ran nifer yr unedau gwag, sydd wedi cyrraedd eu lefel isaf ers mabwysiadu'r CDLl. Mae'r ffigurau'n dangos cynnydd amlwg ym mhob math o siop ers 2023, er bod rhai o'r rhain wedi'u meddiannu gan nifer cynyddol o siopau elusen a siopau trin gwallt/barbwyr/salonau harddwch. Mae un siop betio ychwanegol yn y dref ers 2023 hefyd.

2.5 Mae **Arberth** yn parhau i weithredu fel canol tref iach. Dyma'r dref leiaf yn y CDLl, ond hi sydd â'r cyfraddau isaf o unedau gwag yn gyffredinol. Mae nifer y siopau cymharu wedi cynyddu'n sylweddol ers 2023, ond mae nifer yr unedau cyfleustra a gwasanaeth wedi gostwng. Nid oes yr un siop betio yn y dref o hyd, mae nifer y siopau elusen wedi parhau yn gyson (3) ers

2012 ac mae gostyngiad wedi bod yn nifer y siopau trin gwallt/barbwyr/salonau harddwch.

2.6 Mae’r darlun o ganol tref **Penfro** yn ymddangos yn addawol gyda gostyngiad sylweddol wedi bod yn nifer yr unedau gwag ers 2023. Fodd bynnag, ymddengys bod y gostyngiad hwn yn cynnwys unedau sy'n darparu gwasanaethau, gyda gostyngiad bach wedi bod yn nifer y siopau cymharu a'r siopau cyfleustra. Mae nifer y siopau betio a'r siopau elusen yn parhau yn gyson, gyda gostyngiad bach wedi bod yn nifer y siopau trin gwallt/barbwyr/salonau harddwch.

2.7 Mae nifer cynyddol o unedau gwag yng nghanol tref **Doc Penfro** ers 2023, gyda bron i chwarter yr unedau yn wag (22%). Mae'r dref wedi colli sawl siop gymharu a chyfleustra, ond gwelwyd cynnydd yn nifer yr unedau sy'n darparu gwasanaethau. Mae nifer y siopau betio, siopau elusen a siopau trin gwallt/barbwyr/salonau harddwch wedi parhau’n gyson ers 2023.

2.8 Mae cyfradd yr unedau gwag yng nghanol y trefi a nodwyd eu bod yn y Parc Cenedlaethol yn parhau yn is na chyfradd y rhai sydd o dan awdurdodaeth gynllunio'r cyngor sir. Mae maint a swyddogaeth y trefi yn amrywio'n sylweddol rhwng ardaloedd y ddau awdurdod, gyda'r trefi sydd yn y Parc Cenedlaethol yn chwarae rôl llawer mwy amlwg yn economi ymwelwyr.

2.9 Roedd y cyfraddau gwacter ar gyfer canol dinasoedd a threfi ledled y DU yn parhau i fod bron yn 17% yn ail chwarter 2025 (*Green Street*). Mae'r rhesymau dros lefelau uchel o unedau gwag yn amrywiol ac yn gymhleth ac nid ydynt wedi’u cyfyngu i Sir Benfro. Mae polisïau'r llywodraeth, chwyddiant a chostau cynyddol wedi effeithio ar lawer o fanwerthwyr, gyda chadwyni cenedlaethol a siopau annibynnol fel ei gilydd yn teimlo’r effaith. Mae rhai o'r cadwyni – gan gynnwys Poundland, Claire’s Accessories a WH Smith – oll wedi bod yn bresennol yn Hwlffordd ers blynyddoedd lawer, ond mae’r penderfyniadau busnes a wneir ar lefel y DU yn cael effaith yn lleol, gyda Claire’s Accessories yn cau a WH Smith yn cael ei ailfrandio fel TG Jones. Defnyddiwyd grantiau a chyllid cyhoeddus i wneud gwelliannau eraill i ganol tref Hwlffordd, gan gynnwys gosod y bont drawiadol, pwrpasol ar gyfer lluniau Instagram, a gwelliannau i hen neuadd y farchnad.

2.13 Mae trefi eraill yn Sir Benfro yn cael eu dominyddu gan fanwerthwyr annibynnol sy'n wynebu costau cynyddol ledled y DU. Fodd bynnag, dywed *Savills* bod pobl yn parhau i ymweld â chanol trefi, gyda thystiolaeth bod ychydig o dwf wedi bod yng nghanol trefi ledled y DU, gyda chyfraddau’r unedau gwag yn sefydlogi.

2.14 Mae Polisi CDLl GN.12 ‘Datblygu Canol Trefi’ yn mynnu nad yw datblygiadau arfaethedig yn creu crynodiad o fwy na thraean o ddefnyddiau (manwerthu) nad ydynt yn nosbarth A1 o fewn prif ffryntiad. Mae'r arolwg manwerthu yn dangos bod y canolfannau manwerthu canlynol â llai na dau draean o ddefnyddiau A1 yn y prif ffryntiad: Arberth,

Penfro a Doc Penfro. Pan gaiff defnyddiau A1 gwag hefyd eu didynnu, mae llai na dau draean o brif ffryntiadau'r canol trefi canlynol yn unedau A1 dan feddiannaeth: Abergwaun; Hwlffordd; Arberth; Penfro a Doc Penfro.

# 3.0 Polisi Cynllunio Manwerthu

3.1 Ers i Gynllun Datblygu Lleol Sir Benfro gael ei fabwysiadu ym mis Chwefror 2013, bu newid sylweddol yn yr agwedd tuag at y polisi cenedlaethol yn sgil cyhoeddi Cymru'r Dyfodol – Cynllun Cenedlaethol 2040 (Chwefror 2021). Mae polisi cynllunio cenedlaethol hefyd wedi'i ddiweddaru ym Mholisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, 2021 ac eto ym mis Chwefror 2024) a Nodyn Cyngor Technegol 4: Manwerthu a Datblygu Masnachol (Tachwedd 2016). Mae Cymru'r Dyfodol a pholisi cynllunio cenedlaethol yn defnyddio dull mwy caniataol er mwyn cefnogi canol trefi aml-swyddogaethol a bywiog. Ym mis Medi 2022 cyhoeddodd yr awdurdod Nodyn Ymgynghorol Interim ar Ddatblygu yng Nghanol Trefi sy'n darparu canllawiau ar gymhwyso polisi cynllunio ac ystyriaethau perthnasol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yng nghanol trefi. Mae'r Nodyn Cynghori Interim yn cyfleu meysydd lle nad yw polisi'r CDLl yn cydymffurfio â Chymru'r Dyfodol a pholisi cynllunio cenedlaethol. Y ddau brif faes polisi yw fel a ganlyn;

- Mae polisi CDLl GN.12 Datblygu Canol Tref (maen prawf 2) yn ceisio cyfyngu ardaloedd prif ffryntiadau a nodwyd ar gyfer defnyddiau manwerthu A1, gan ganiatáu dim mwy na thraean o ddefnyddiau nad ydynt yn nosbarth A1. Mae Polisi 6 Cymru'r Dyfodol yn mabwysiadu dull gwneud 'Canol Tref yn flaenoriaeth' er mwyn cefnogi cyfleusterau masnachol, manwerthu, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau cyhoeddus newydd yng nghanol trefi. Mae Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12, Chwefror 2024) yn cydnabod mai defnyddiau A1 sy'n sail i ganolfannau manwerthu a masnachol diffiniedig, ond mai un math o amrywiaeth o ddefnyddiau y dylid eu hannog i gyfrannu at lesiant a llwyddiant canolfan yw hwn. Mae'n nodi'r angen i fonitro iechyd canolfannau manwerthu yn rheolaidd i nodi ble mae cyfraddau gwacter yn bygwth tanseilio hyfywedd a bywiogrwydd. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'r polisi cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cynllunio ystyried sut y gall defnyddiau nad ydynt yn ddefnyddiau A1 chwarae rhan amlycach i gynyddu amrywiaeth a lleihau lefelau gwacter.

- Nid yw Polisi CDLl GN.12 Datblygu Canol Tref (maen prawf 4) yn caniatáu newid defnydd i ddefnydd preswyl (Dosbarth Defnydd C3) ar lawr daear mewn prif ffryntiad manwerthu na ffryntiad eilaidd. Mae Cymru'r Dyfodol yn datgan fod "canol trefi nid yn unig yn addas ar gyfer datblygiadau amhreswyl ond yn lleoliad priodol ar gyfer cartrefi

newydd” (cyfiawnhad rhesymegol i bolisi 6, tudalen 71). Mae Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12, Chwefror 2024) yn derbyn y gall defnyddiau preswyl fod yn dderbyniol o fewn ffiniau canolfannau manwerthu ond y gall y gymysgedd o ddefnyddiau arwain at aflonyddwch o ganlyniad i sŵn yn hwyr y nos. Yn ogystal a hyn, mae'n annhebygol y bydd defnydd preswyl ar y llawr daear mewn prif ardaloedd yn addas gan y gallai ymrannu’r ffryntiadau siopa a dirywio bywiogrwydd a hyfywedd canol y dref ymhellach. Mae'r nodyn cyfarwyddyd interim yn nodi y bydd defnyddiau preswyl yn parhau i gael eu cyfyngu ar y llawr daear mewn prif ardaloedd manwerthu, ac efallai y bydd defnyddiau preswyl yn cael eu hystyried yn briodol ar lawr daear mewn ardaloedd manwerthu eilaidd.

3.2 Mae'r CDLl2 sydd ar ddod wedi cynnig newidiadau i’r canol trefi, a'r prif ffryntiadau a’r ffryntiadau eilaidd. Mae bwriad i archwilio’r cynllun yn 2026 a disgwylir iddo gael ei fabwysiadu erbyn diwedd y flwyddyn.

# 4.0 Data ar Ganol Trefi 2023

## 4.1 Nifer yr unedau Dosbarth A

**A1:** Defnyddiau A1 yw siopau o bob math, gan gynnwys archfarchnadoedd a warysau manwerthu. Mae defnyddiau A1 hefyd yn cynnwys trinwyr gwallt a siopau brechdanau (heblaw'r rhai sy'n gwerthu bwyd poeth) a rhai ystafelloedd arddangos.

**A2:** Defnyddiau A2 yw'r rhai sy'n cynnig gwasanaethau ariannol a phroffesiynol i aelodau'r cyhoedd sy'n ymweld, gan gynnwys banciau, cymdeithasau adeiladu ac asiantau tai.

**A3:** Defnyddiau A3 yw mannau gwerthu bwyd a diod, gan gynnwys tai bwyta, bariau, tafarnau a siopau cludfwyd.

<table>
<tr><th>Tref</th><th>A1 (dan feddiann-aeth)</th><th>A2 (dan feddiann-aeth)</th><th>A3 (dan feddiann-aeth)</th><th>Dosbarth A cymysg (dan feddiann-aeth)</th><th>Gwag Dosbarth A</th><th>Cyfanswm dosbarth A</th><th>% unedau gwag Dosbarth A)</th><th>Cyfanswm yr unedau gwag (pob defnydd heblaw preswyl)</th></tr>
<tr><td>Abergwaun</td><td>45</td><td>8</td><td>22</td><td>0</td><td>12</td><td>87</td><td>13.8%</td><td>16</td></tr>
<tr><td>Hwlffordd</td><td>90</td><td>42</td><td>31</td><td>0</td><td>57</td><td>220</td><td>25.9%</td><td>70</td></tr>
<tr><td>Aberdau-gleddau</td><td>53</td><td>14</td><td>15</td><td>0</td><td>11</td><td>93</td><td>11.8%</td><td>15</td></tr>
<tr><td>Marina Aberdau-gleddau</td><td>9</td><td>1</td><td>9</td><td>0</td><td>7</td><td>26</td><td>26.9%</td><td>7</td></tr>
<tr><td>Arberth</td><td>53</td><td>8</td><td>25</td><td>0</td><td>5</td><td>91</td><td>5.5%</td><td>5</td></tr>
<tr><td>Penfro</td><td>51</td><td>18</td><td>26</td><td>0</td><td>18</td><td>113</td><td>15.9%</td><td>18</td></tr>
<tr><td>Doc Penfro</td><td>56</td><td>11</td><td>15</td><td>0</td><td>18</td><td>100</td><td>18%</td><td>24</td></tr>
<tr><td>Dinbych-y-pysgod</td><td colspan="4" rowspan="5"><u>Arolwg Parc Cenedlaethol dyddiedig Mehefin 2023</u><br><br>Dim dadansoddiad ar gael</td><td>13</td><td>187</td><td>10%</td><td rowspan="5">Dim dadansodd-iad ar gael</td></tr>
<tr><td>Llanusyllt (Saundersfoot)</td><td>1</td><td>66</td><td>3%</td></tr>
<tr><td>Tyddewi</td><td>7</td><td>60</td><td>5%</td></tr>
<tr><td>Solfach</td><td>1</td><td>14</td><td>0%</td></tr>
<tr><td>Trefdraeth</td><td>0</td><td>29</td><td>0%</td></tr>
</table>

Noder:
- Mae'r data yn berthnasol i unedau llawr daear ac unedau dibreswyl ar y llawr cyntaf.
- Cyfradd yr unedau gwag ar strydoedd mawr Cymru yn ystod Chwarter 2 2023 oedd 16.9 y cant (Consortiwm Manwerthu Cymru).

## 4.2 Arwynebedd llawr daear unedau Dosbarth A (m2 gros) 2023

Mae dadansoddiad pen desg o fapiau wedi rhoi arwynebedd llawr gros ar gyfer holl unedau manwerthu.

| Arwynebedd llawr | A1 arwynebedd llawr (dan feddiannaeth) (metr sgwâr) | A2 arwynebedd llawr (dan feddiannaeth) (Metr sgwâr) | A3 arwynebedd llawr (dan feddiannaeth) (Metr sgwâr) | Dosbarth A cymysg (dan feddiannaeth) (Metr sgwâr) | unedau gwag (Dosbarth A) (Metr sgwâr) | Cyfanswm (Metr sgwâr) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Abergwaun | 7069 | 606 | 3424 | 0 | 1677 | 12.776 |
| Hwlffordd | 15271 | 6175 | 4452 | 0 | 9863 | 35,761 |
| Aberdaugleddau | 4455 | 1591 | 1570 | 0 | 2157 | 9773 |
| Marina Aberdaugleddau | 662 | 250 | 724 | 0 | 427 | 2063 |
| Arberth | 4895 | 414 | 4169 | 0 | 369 | 9847 |
| Penfro | 6804 | 2736 | 4381 | 0 | 3540 | 17461 |
| Doc Penfro | 10482 | 1395 | 1879 | 0 | 3129 | 16885 |

## 4.3 Math o unedau Dosbarth A 2014 - 2023

### Cymharu (dan feddiannaeth)

**Uned gymharu:** Yr unedau hynny sy'n gwerthu cynhyrchion o natur barhaol i'r cyhoedd. Cynhyrchion yw'r rhain fel dillad, electroneg, cerddoriaeth neu lyfrau.

| | Abergwaun | Hwlffordd | Aberdaugleddau | Marina Aberdaugleddau | Arberth | Penfro | Doc Penfro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2014 Cymharu (dan feddiannaeth)** | 39 | 94 | 30 | 8 | 42 | 34 | 48 |
| **2016 Cymharu (dan feddiannaeth)** | 35 | 103 | 30 | 9 | 40 | 35 | 45 |
| **2018 Cymharu (dan feddiannaeth)** | 32 | 90 | 34 | 9 | 40 | 33 | 38 |
| **2019 Cymharu (dan feddiannaeth)** | 32 | 91 | 31 | 9 | 39 | 33 | 37 |
| **2020 Cymharu (dan feddiannaeth)** | 29 | 80 | 29 | 8 | 35 | 33 | 36 |
| **2021 Cymharu (dan feddiannaeth)** | 30 | 74 | 26 | 7 | 36 | 30 | 36 |
| **2022 Cymharu (dan feddiannaeth)** | 30 | 70 | 29 | 12 | 35 | 34 | 37 |
| **2023 Cymharu (dan feddiannaeth)** | 28 | 63 | 30 | 12 | 36 | 31 | 35 |
| **2025 Cymharu (dan feddiannaeth)** | 31 | 65 | 42 | 8 | 49 | 30 | 33 |

## Cyfleuster (dan feddiannaeth)

**Uned gyfleuster:** Yr unedau hynny sy'n gwerthu cynhyrchion o natur amharhaol i'r cyhoedd. Cynhyrchion yw'r rhain fel bwyd neu bethau ymolchi.

| | Abergwaun | Hwlffordd | Aberdaugleddau | Marina Aberdaugleddau | Arberth | Penfro | Doc Penfro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2014 Cyfleuster (dan feddiannaeth)** | 4 | 2 | 3 | 0 | 4 | 4 | 1 |
| **2016 Cyfleuster (dan feddiannaeth)** | 4 | 2 | 3 | 0 | 4 | 3 | 1 |
| **2018 Cyfleuster (dan feddiannaeth)** | 4 | 3 | 3 | 0 | 4 | 6 | 5 |
| **2019 Cyfleuster (dan feddiannaeth)** | 4 | 3 | 2 | 0 | 4 | 6 | 5 |
| **2020 Cyfleuster (dan feddiannaeth)** | 4 | 3 | 2 | 0 | 4 | 6 | 5 |
| **2021 Cyfleuster (dan feddiannaeth)** | 4 | 3 | 2 | 0 | 4 | 6 | 5 |
| **2022 Cyfleuster (dan feddiannaeth)** | 5 | 3 | 2 | 0 | 5 | 6 | 5 |
| **2023 Cyfleuster (dan feddiannaeth)** | 4 | 3 | 2 | 0 | 5 | 6 | 5 |
| **2025 Cyfleuster (dan feddiannaeth)** | 3 | 2 | 2 | 0 | 2 | 3 | 2 |

## Gwasanaeth (dan feddiannaeth)

**Uned wasanaeth:** Yr unedau hynny sy'n cynnig gwasanaeth i'r cyhoedd. Gwasanaethau yw'r rhain fel trinwyr gwallt, siopau betio neu werthwyr tai.

| | Abergwaun | Hwlffordd | Aberdaugleddau | Marina Aberdaugleddau | Arberth | Penfro | Doc Penfro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2014 Gwasanaeth (dan feddiannaeth)** | 43 | 106 | 47 | 11 | 42 | 63 | 45 |

| | Abergwaun | Hwlffordd | Aberdaugleddau | Marina Aberdaugleddau | Arberth | Penfro | Doc Penfro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2016 Gwasanaeth (dan feddiannaeth)** | 45 | 100 | 49 | 9 | 43 | 65 | 44 |
| **2018 Gwasanaeth (dan feddiannaeth)** | 43 | 94 | 45 | 11 | 41 | 60 | 40 |
| **2019 Gwasanaeth (dan feddiannaeth)** | 43 | 91 | 46 | 11 | 40 | 59 | 41 |
| **2020 Gwasanaeth (dan feddiannaeth)** | 42 | 95 | 42 | 8 | 37 | 54 | 39 |
| **2021 Gwasanaeth (dan feddiannaeth)** | 37 | 88 | 38 | 14 | 36 | 51 | 40 |
| **2022 Gwasanaeth (dan feddiannaeth)** | 43 | 93 | 35 | 12 | 40 | 52 | 42 |
| **2023 Gwasanaeth (dan feddiannaeth)** | 41 | 81 | 34 | 12 | 42 | 47 | 42 |
| **2025 Gwasanaeth (dan feddiannaeth)** | 40 | 107 | 43 | 12 | 41 | 73 | 53 |

## Gwag

Ar gyfer eiddo gwag, gwnaed chwiliadau dilynol o ffeiliau cynllunio hanesyddol a defnyddiwyd arolygon blaenorol i benderfynu'r dosbarth defnydd hysbys diwethaf, lle bo hynny'n bosibl.

| | Abergwaun | Hwlffordd | Aberdaugleddau | Marina Aberdaugleddau | Arberth | Penfro | Doc Penfro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2014 Gwag** | 9 | 42 | 21 | 0 | 2 | 7 | 17 |
| **2016 Gwag** | 16 | 45 | 18 | 1 | 2 | 8 | 21 |
| **2018 Gwag** | 19 | 38[3] | 23 | 2 | 5 | 9 | 28 |
| **2019 Gwag** | 16 | 38 | 18 | 3 | 8 | 9 | 28 |
| **2020 Gwag** | 17 | 44 | 17 | 8 | 10 | 15 | 26 |
| **2021 Gwag** | 21 | 54 | 28 | 1 | 8 | 21 | 26 |

| | Abergwaun | Hwlffordd | Aberdaugleddau | Marina Aberdaugleddau | Arberth | Penfro | Doc Penfro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2022 Gwag** | 16 | 45 | 28 | 0 | 4 | 16 | 20 |
| **2023 Gwag** | 16 | 49 | 19 | 1 | 3 | 22 | 20 |
| **2025 Gwag** | 12 | 58 | 10 | 8 | 4 | 16 | 14 |

## Cyfanswm dosbarth A

Sawl eiddo a nodwyd fel A1, A2 neu A3 yn y Gorchymyn Dosbarthiadau Defnydd.

| | Abergwaun | Hwlffordd | Aberdaugleddau | Marina Aberdaugleddau | Arberth | Penfro | Doc Penfro |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2014 Cyfanswm dosbarth A** | 95 | 232 | 101 | 19 | 92 | 112 | 110 |
| **2016 Cyfanswm dosbarth A** | 100 | 250 | 101 | 19 | 90 | 113 | 111 |
| **2018 Cyfanswm dosbarth A** | 98 | 225 | 106 | 22 | 90 | 108 | 111 |
| **2019 Cyfanswm dosbarth A** | 93 | 223 | 98 | 23 | 90 | 107 | 112 |
| **2020 Cyfanswm dosbarth A** | 92 | 222 | 90 | 24 | 86 | 108 | 106 |
| **2021 Cyfanswm dosbarth A** | 94 | 220 | 95 | 22 | 86 | 108 | 107 |
| **2022 Cyfanswm dosbarth A** | 94 | 211 | 94 | 24 | 84 | 108 | 104 |
| **2023 Cyfanswm dosbarth A** | 92 | 196 | 91 | 27 | 86 | 108 | 104 |
| **2025 Cyfanswm dosbarth A** | 86 | 232 | 97 | 28 | 96 | 122 | 102 |

## 4.4 Arwynebedd llawr (m2 gros) Dosbarth A 2025


Mae dadansoddiad pen desg o fapiau wedi rhoi arwynebedd llawr gros ar gyfer holl unedau manwerthu


| Tref | Arwynebedd Llawr Cymharu (dan feddiannaeth) | Arwynebedd Llawr Cyfleuster (dan feddiannaeth) | Arwynebedd Llawr Gwasanaeth (dan feddiannaeth) | Cymysg (Dosbarth A) (dan feddiannaeth) | Gwag | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Abergwaun | 3791 | 1663 | 4691 | 82 | 1993 | 12,050 |
| Hwlffordd | 10,923 | 899 | 15,138 | 0 | 10,221 | 37,181 |
| Aberdaugleddau | 3653 | 697 | 3925 | 0 | 2,257 | 10,532 |
| Marina Aberdaugleddau | 593 | 0 | 1042 | 0 | 427 | 2,062 |
| Arberth | 4522 | 204 | 4873 | 150 | 291 | 10,040 |
| Penfro | 5098 | 653 | 8771 | 0 | 4533 | 19,055 |
| Doc Penfro | 4,430 | 3,331 | 5,453 | 0 | 3,129 | 15,683 |


## 4.5 Tabl yn dangos y newidiadau yng nghyfraddau unedau gwag dosbarth A rhwng 2014 a 2022.


| Tref | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Abergwaun | 10% | 9% | 16% | 15% | 20% | 17% | 19% | 22% | 17% | 17% | 14% |
| Hwlfforddd | 9% | 17% | 18% | 25% / 16% | 17% | 17% | 21% | 25% | 21% | 25% | 26% |
| Aberdaugleddau | 14% | 21% | 18% | 20% | 23% | 19% | 22% | 29% | 30% | 21% | 12% |
| Marina Aberdaugleddau | Amherthnasol | 0% | 5% | 19% | 9% | 13% | 33% | 5% | 0% | 4% | 27% |
| Arberth | 4% | 2% | 2% | 6% | 6% | 9% | 11% | 9% | 5% | 3% | 6% |
| Penfro | 9% | 6% | 7% | 12% | 10% | 9% | 15% | 19% | 15% | 20% | 16% |
| Doc Penfro | 10% | 15% | 19% | 22% | 26% | 25% | 24% | 24% | 19% | 19% | 18% |
| Dinbych-y-pysgod | 7% | 3% | 4% | 5% | 7% | 4% | 4% | 8% | 6% | 10% | 7% |
| Llanusyllt (Saundersfoot) | 3% | 8% | 6% | 5% | 2% | 0% | 3% | 5% | 1% | 3% | 2% |
| Tyddewi | 3% | 3% | 3% | 3% | 5% | 8% | 7% | 8% | 5% | 5% | 13% |
| Solfach | 8% | 0% | 0% | 8% | 0% | 7% | 7% | 7% | 7% | 0% | 8% |
| Trefdraeth | 8% | 0% | 0% | 8% | 0% | 7% | 7% | 7% | 0% | 0% | 0% |
| Cyfartaledd Cenedlaethol y DU | 13.9% | 13.2% | 12.5% | 12.7% | 12.2% | 12.4% | 12.4% | 15.8% | 13.9% | 16.9% | 16.9% |


## 4.6 Graff yn dangos cyfraddau unedau gwag dosbarth A ar gyfer 2019 i 2025






Fishguard
25
20
15
10
5
0
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
2022
2023
2025



Haverfordwest
30
20
10
0
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
2022
2023
2025


Milford Haven
30
20
10
0
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
2022
2023
2025


Milford Marina
40
30
20
10
0
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
2022
2023
2025


Narberth
12
10
8
6
4
2
0
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
2022
2023
2025


Pembroke
20
15
10
5
0
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
2022
2023
2025


Pembroke Dock
30
25
20
15
10
5
0
2014
2015
2016
2017
2018
2019
2020
2021
2022
2023
2025

## 4.7 Tabl yn dangos canran y defnyddiau A1 dan feddiannaeth yn y prif ffryntiad manwerthu.

| Canol tref | Cyfanswm prif ffryntiad manwerthu mewn metrau | Cyfanswm prif ffryntiad manwerthu mewn metrau gyda defnydd A1 (dan feddiannaeth a gwag) | Canran y prif ffryntiad manwerthu gyda defnydd A1 (dan feddiannaeth a gwag) | Cyfanswm prif ffryntiad manwerthu mewn metrau gyda defnydd A1 dan feddiannaeth | Canran y ffryntiad manwerthu cynradd gyda defnydd A1 dan feddiannaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| **Abergwaun** | 414 | 277 | 67% | 224 | 54% |
| **Hwlffordd** | 1127 | 790 | 70% | 573 | 51% |
| **Aberdaugleddau** | 200 | 177 | 89% | 132 | 66% |
| **Marina Aberdaugleddau** | 39 | 39 | 100% | 32 | 82% |
| **Arberth** | 468 | 289 | 62% | 281 | 60% |
| **Penfro** | 484 | 228 | 47% | 184 | 38% |
| **Doc Penfro** | 1043 | 631 | 61% | 526 | 50% |

## 4.8 Newidiadau mewn siopau betio rhwng 2009 a 2023 (unedau dan feddiannaeth yn unig)

**Cyfanswm Siopau Betio**

| Tref | 2009 | 2012 | 2014 | 2016 | 2018[4] | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aber-gwaun | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Hwlffordd | 2 | 2 | 2 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 2 | 2 | 3 |
| Aberdau-gleddau | 2 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 2 | 2 | 2 | 2 | 3 |
| Arberth | 0 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Penfro | 1 | 1 | 2 | 2 | 1 | 2 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Doc Penfro | 0 | 1 | 2 | 3 | 2 | 2 | 2 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Cyfanswm | 6 | 9 | 11 | 13 | 11 | 11 | 9 | 6 | 6 | 6 | 8 |
| Trefdraeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol |
| Llanusyllt (Saunders-foot) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol |
| Solfach | 0 | - | 0 | 0 | 0 | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol |
| Tyddewi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol |
| Dinbych-y-pysgod | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol |
| Cyfanswm | 8 | 11 | 14 | 15 | 13 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |

## 4.9 Newidiadau mewn siopau elusen rhwng 2009 a 2025 (unedau dan feddiannaeth yn unig)

| Tref | 2009 | 2012 | 2014 | 2016 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2025 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aber-gwaun | 1 | 3 | 3 | 2 | 4 | 4 | 4 | 4 | 3 | 3 | 3 |
| Hwlffordd | 8 | 9 | 12 | 11 | 11 | 11 | 9 | 9 | 12 | 11 | 9 |
| Aberdau-gleddau | 3 | 3 | 4 | 3 | 4 | 7 | 4 | 3 | 3 | 3 | 7 |
| Arberth | 0 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Penfro | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 4 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Doc Penfro | 1 | 1 | 7 | 5 | 4 | 6 | 5 | 4 | 6 | 5 | 4 |
| Cyfanswm | 17 | 23 | 33 | 28 | 30 | 35 | 28 | 26 | 30 | 26 | 29 |
| Trefdraeth | - | 0 | 0 | 0 | 0 | Amhert-hnasol | Amherth nasol | Amherth nasol | Amherth nasol | Amherth nasol | Amherth nasol |
| Llanusyllt (Saunders foot) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | Amhert-hnasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol |
| Solfach | - | - | 0 | 0 | 0 | Amhert-hnasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol |
| Tyddewi | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | Amhert-hnasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol |
| Dinbych-y-pysgod | 5 | 6 | 4 | 4 | 4 | Amhert-hnasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol |
| Cyfanswm | 6 | 7 | 5 | 5 | 5 | Amhert-hnasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol |
| Cyfanswm | 23 | 30 | 38 | 33 | 35 | Amherth nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol |

**Commented [LH1]:** Note to client. Had trouble fitting the translation into the table here. Perhaps it can be looked at.

4.10

| Tref | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| Abergwaun | 7 | 6 | 8 | 6 | 6 |
| Hwlffordd | 10 | 14 | 15 | 14 | 8 |
| Aberdaugleddau | 7 | 8 | 8 | 6 | 8 |
| Marina Aberdaugleddau | 2 | 1 | 0 | 3 | 1 |
| Arberth | 4 | 5 | 6 | 6 | 4 |
| Penfro | 8 | 10 | 11 | 13 | 11 |
| Doc Penfro | 9 | 11 | 14 | 13 | 13 |
| **Cyfanswm** | **47** | **55** | **62** | **52** | **51** |

**Newidiadau yn nifer y safleoedd dan feddiannaeth gan farbwyr/trinwyr gwallt a salonau harddwch rhwng 2020 a 2025 (unedau dan feddiannaeth yn unig)**

# 5.0 Mapiau Canol Trefi (gweler yr Atodiadau)

Mae'r mapiau'n dangos dosbarth defnydd yr eiddo yng nghanol y dref ar adeg yr arolwg manwerthu.

Mae'r rhestr ganlynol yn rhoi awgrym o'r mathau o ddefnydd a allai fod ym mhob dosbarth defnydd.

**Siopau A1** – Siopau, warysau manwerthu, siopau trin gwallt, ymgymerwyr, asiantaethau teithio a thocynnau, swyddfeydd post (ond nid swyddfeydd didoli), siopau anifeiliaid anwes, siopau brechdanau, ystafelloedd arddangos, siopau hurio domestig, sychlanhawyr a threfnwyr angladdau.

**A2 Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol** – Gwasanaethau ariannol fel banciau a chymdeithasau adeiladu, gwasanaethau proffesiynol (ac eithrio gwasanaethau iechyd a meddygol) gan gynnwys asiantaethau eiddo a chyflogaeth.

**A3 Bwyd a diod** - Ar gyfer gwerthu bwyd a diod i'w bwyta ar y safle - tai bwyta, siopau byrbrydau a chaffis, sefydliadau yfed a siopau cludfwyd.

**B1 Busnes** – Swyddfeydd (ac eithrio'r rhai sy'n nosbarth A2), ymchwil a datblygu cynhyrchion a phrosesau, diwydiant ysgafn sy'n briodol ar gyfer ardal breswyl.

**B2 Diwydiant cyffredinol –** Defnydd ar gyfer proses ddiwydiannol heblaw'r rhai yn nosbarth B1 (ac eithrio dibenion llosgi, triniaeth gemegol, tirlenwi neu wastraff peryglus).

**B8 Storio neu ddosbarthu –** Defnydd ar gyfer storio neu fel canolfan ddosbarthu. Mae'r dosbarth hwn yn cynnwys storfa awyr agored.

**C1 Gwestai –** Gwestai, lletyau a thai llety lle na ddarperir elfen sylweddol o ofal (ac eithrio hosteli).

**C3 Tai annedd**, a ddefnyddir fel unig neu brif breswylfeydd


**C5 Tai annedd**, heb fod yr unig neu brif breswylfeydd

**C6 Gosodiadau tymor byr**


**D1 Sefydliadau dibreswyl –** Clinigau, canolfannau iechyd, crèches, meithrinfeydd dydd, canolfannau dydd, ysgolion, orielau celf (ac eithrio celf sydd ar werth neu ar gael i'w llogi), amgueddfeydd, llyfrgelloedd, neuaddau, mannau addoli, neuaddau eglwys, llysoedd barn, canolfannau addysg a hyfforddiant dibreswyl.

**D2 Gwasanaeth a hamdden –** Sinemâu, neuaddau cerddoriaeth a chyngherddau, casinos, neuaddau bingo a dawns, pyllau nofio, lloriau sglefrio, campfeydd neu ardal ar gyfer chwaraeon a hamdden dan do neu awyr agored (ac eithrio chwaraeon modur, neu lle defnyddir drylliau).


**Sui Generis -** Nid yw rhai defnyddiau'n dod o dan unrhyw ddosbarth defnydd ac fe'u hystyrir yn 'ddefnydd unigryw'. Mae defnyddiau o'r fath yn cynnwys: siopau betio, theatrau, hosteli, iardiau sborion, gorsafoedd petrol a siopau sy'n gwerthu a/neu'n arddangos cerbydau modur, golchdai, busnesau tacsis a chanolfannau difyrion.





© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.




© Crown copyright and database rights 2026 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.




© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.





© Crown copyright and database rights 2026 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.




© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o’r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.





© Crown copyright and database rights 2026 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.





© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.


Narberth /Arberth 2025




© Crown copyright and database rights 2026 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.




© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.




© Crown copyright and database rights 2026 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.




© Crown copyright and database rights 2024 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2024 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.




© Crown copyright and database rights 2026 Ordnance Survey 100023344 EUL. You are permitted to use this data solely to enable you to respond to, or interact with, the organisation that provided you with the data. You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form. © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2026 Arolwg Ordnans 100023344 EUL. Rhoddir trwydded ddirymiadwy, anghyfyngedig a heb freindal i chi i weld y data trwyddedig at ddibenion anfasnachol am y cyfnod y mae ar gael gan Cyngor Sir Penfro Ni chewch gopïo, is-drwyddedu, dosbarthu na gwerthu unrhyw ran o'r data hwn i drydydd partïon mewn unrhyw ffurf.